# Arolygiad o dan Adran 28 o Ddeddf Addysg 2005

**Ysgol Tanycastell**
**Harlech, LL46 2UE**

**Rhif yr Ysgol: 6612219**

**Dyddiad yr Arolygiad: 27/02/07**

**gan**

**Maldwyn Ellis Pryse**
**79215**

**Dyddiad Cyhoeddi: 1/05/2007**

**Dan rif contract Estyn:**
**1109406**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.**

143 Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer cydraddoldeb o ran hygyrchedd a chyfleon cyfartal i bob disgybl yn dda. Ymestynna a chefnoga'r amrywiaeth cynhwysfawr o weithgareddau allgyrsiol at y cwricwlwm. Cyfoethoga'r profiadau hyn iaith y disgyblion gan gyfrannu'n sylweddol at y safonau maent yn ymgyrraedd atynt, yn arbennig eu datblygiad personol a chymdeithasol. Nid yw anghydraddoldeb rhyw nac anfanteision cymdeithasol yn faterion amlwg a chaiff pob disgybl y cyfle i gyrraedd safonau uchel ymhob agwedd o fywyd yr ysgol.

144 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda. Ceir bod ethos yr ysgol yn un ofalgar a chefnogol, ble mae pob unigolyn yn cael ei barchu a'i werthfawrogi. Mae'r cydaddoli yn ganolog i hyrwyddo hunan barch a gwerthoedd moesol y disgyblion. Bodola ymdeimlad cryf o gymuned yn yr ysgol ac mae'r disgyblion hŷn yn cymryd cyfrifoldebau, megis allan ar iard yr ysgol amser chwarae.